



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
gyfer Datblygu Gwledig
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Glastir

Grantiau Bach Glastir

Llyfryn Rheolau Cyffredinol

(wedi'i ddiweddarau Ebrill 2021)

Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru –
Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru

2014-2020



Prif Bwyntiau

Adran A – Cyflwyniad

Adran B – Pwy sy'n Gymwys am Grantiau Bach Glastir

Adran C – Tir mewn cynlluniau eraill

Tir sy'n cael ei ddefnyddio i gynnal Gweithgareddau Chwaraeon a/neu Hamdden

Gwaharddiad 2 Flynedd

Adran D – Ymgynghori a Chaniatáu

Adran E – Gwneud Cais am Grantiau Bach Glastir

Adran F – Taliadau

Adran G – Trosglwyddo neu Werthu Tir o dan Contract

Newidiadau i'r Ddeddfwriaeth (gan gynnwys Dehongliadau Newydd)

Newidiadau i Reolau'r Cynllun

Adran H – Archwiliadau a Chadw Cofnodion

Archwiliadau Fferm

Cadw cofnodion

Adran I – Gostyngiadau a Chosbau

Tanddatgan

Gorddatgan

Cosbau cronnus am orddatgan

Adran J – Y Drefn Apelio

Y drefn gwyno

Adran K – Deddf Diogelu Data 1998: Hysbysiad Preifatrwydd

Manylion Cysylltu

Prif Bwyntiau

- Mae'r datganiad o ddiddordeb yn ddogfen ddigidol ac mae ar gael ar wasanaeth RPW Ar-lein. Rhaid cyflwyno'r Datganiad trwy RPW Ar-lein erbyn y dyddiadau cau a gyhoeddir.
- Os nad ydych wedi cofrestru gydag RPW Ar-lein eto ac nad oes gennych god defnyddio, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 cyn gynted ag y medrwch.
- Mae canllaw ar sut i gyflwyno Datganiad Diddordeb ar-lein Grantiau Bach Glastir ar gael oddi wrth RPW Ar-lein (www.llyw.cymru/rpwarlein). Rhaid i reolwyr tir a busnesau ffermio gofrestru i gael Cyfeirnod Cwsmer (CRN) ac er mwyn Datgan Diddordeb, rhaid bod y tir wedi'i gofrestru gyda Llywodraeth Cymru. (Gweler [Rheolwyr Tir/Busnesau Ffermio a Tir Cymwys](#)).
- Os cewch eich dewis, bydd yn rhaid i'ch Contractau Grantiau Bach Glastir gael eu dilysu. Efallai y bydd y broses ddilysu'n para'n hirach weithiau oherwydd y broses gofyn caniatâd neu Rheoli fy Nhir. Ar ôl eu dilysu, caiff y contractau eu cynhyrchu a bydd gennych 21 niwrnod naill ai i "dderbyn" neu "wrthod" y prosiect trwy'r 'botwm glas' ar hafan RPW Ar-lein. Os na fyddwch wedi derbyn neu wrthod y contractau o fewn y 21 niwrnod hwnnw, byddwn ni'n eu tynnu'n ôl. Gan fod amserlen y cynllun yn dynn, ni fyddwn yn cynnig estyniad i unrhyw gontractau na fyddwch wedi'u derbyn o fewn y terfyn amser.
- Peidiwch â chymryd y ffotograffau "cyn" na dechrau ar y gwaith tan y byddwch wedi derbyn y contract. Mae'n bosibl na fydd ffotograffau a dynnwyd cyn dechrau'r contract yn ddilys o safbwynt y taliad.
- Gofalwch eich bod wedi cadarnhau bod ardal y prosiect yn addas ar gyfer yr opsiwn rydych wedi'i ddewis cyn cyflwyno'ch Datganiad o Ddiddordeb. Os gwelwch nad yw'r opsiwn yn addas wrth ichi wneud y gwaith, ni fyddwch yn cael newid yr opsiwn a gallai hynny effeithio ar eich hawl i gael taliad.
- Os ydych yn derbyn contract ar gyfer Grantiau Bach Glastir a'ch bod yn tynnu'n ôl wedi hynny, neu os nad ydych yn cwblhau 80% o werth y Prosiectau Gwaith Cyfalaf o fewn Thema, byddwch yn debygol o golli'r hawl i geisio am ragor o Grantiau Bach Glastir am **ddwy flynedd**. (Gweler y [Gwaharddiad 2 Flynedd](#)).
- Ni ddylai rheolwyr tir a busnesau ffermio wneud cais i gynnal Prosiect Gwaith Cyfalaf oni bai eu bod yn siŵr y gallan nhw ei orffen erbyn y dyddiad terfyn.
- Dylai rheolwyr tir a busnesau ffermio ystyried y Prif Opsiwn Gwaith Cyfalaf mwyaf addas ar gyfer eu prosiect. **Nid yw'n bosibl newid y Prif Opsiwn Gwaith Cyfalaf ar ôl Datgan Diddordeb.**
- **Pwysig: nid yw tocio perth/gwrych â pheiriant torri perthi (flail cutter) yn bodloni gofynion technegol yr opsiwn Bondocio a Chau Perthi/Gwrychoedd. Os byddwch yn cyflwyno prosiect Bondocio a Chau Perth/Gwrych ac yn tocio'r berth yn unig, caiff yr hawliad ei wrthod.**
- Mae Grantiau Bach Glastir yn gynllun sy'n seiliedig ar barseli. Os caiff mwy nag un datganiad o ddiddordeb ei gyflwyno mewn prosiectau ar gyfer yr un berth/gwrych, caiff y ddau eu gwrthod.
- **Oherwydd diffyg amser, ni fydd modd newid prosiect Grantiau Bach Glastir ar ôl cyflwyno'r Datganiad o Ddiddordeb, gan gynnwys newidiadau i'r Gwaith Cyfalaf Eilaidd yn ogystal â'r Prif Waith Cyfalaf.**
- Ar ôl llofnodi contract Grantiau Bach Glastir, rhaid ichi dynnu ffotograffau Geotag o'r safle rydych am weithio arno cyn dechrau pob Prosiect Gwaith Cyfalaf, a ffotograffau eraill Geotag o'r un lle ar ôl gorffen y gwaith. Mae help ymarferol a digidol ar gael i'ch helpu i dynnu a chyflwyno ffotograffau Geotag. (Gweler [Cadw Cofnodion](#))
- Ni chewch symud prosiectau oherwydd prinder amser i'w cynnal.

- Ar ôl ichi gwblhau'r gwaith, bydd gofyn ichi gyflwyno Ffurflen Hawlio Gwaith Cyfalaf trwy'ch cyfrif RPW Ar-lein, ynghyd â'r ffotograffau "Cyn" ac "Ar ôl" gyda geotagiau.
- Unwaith y byddwch wedi cyflwyno'r ffurflen hawlio, caiff ei dilysu. Efallai y gwnaiff ein Tîm Prosesu ofyn ichi am ragor o ffotograffau neu dystiolaeth i'w helpu i ddilysu'ch hawliad. Os gwelwn yn ystod y broses ddilysu nad ydych wedi bodloni holl ofynion y prosiect, efallai y caiff eich taliad ei leihau, ei gosbi neu ei wrthod. Er enghraifft, os gwelir yn ystod y broses ddilysu nad yw opsiwn y Prif Waith Cyfalaf wedi'i gwblhau at y safon a ddisgrifir yn y Canllaw Technegol, gallai'ch hawliad gael ei wrthod. Ni fydd y Gwaith Cyfalaf Eilaidd yn gymwys am daliad chwaith gan na fydd opsiwn y Prif Waith Cyfalaf wedi bodloni'r safonau.
- Mae Grantiau Bach Glastir yn rhan o raglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020.
- Ar ôl cwblhau pob prosiect adfer a phlannu perth/gwrych, rhaid ei amddiffyn rhag stoc. Rhaid codi ffens newydd bob ochr i'r berth oni bai ei bod yn ffinio â heol neu bod ffens atal stoc eisoes ar un ochr. Os ydych chi'n gwneud cais am brosiect perthi sy'n rhannu ffin, bydd angen cytundeb eich cymydog arnoch i adeiladu unrhyw ffens ar ei dir i gefnogi'ch gwaith cyfalaf chi.

Adran A – Cyflwyniad

Cynllun grantiau gwaith cyfalaf yw Grantiau Bach Glastir, sydd ar gael i reolwyr tir a busnesau ffermio yng Nghymru. Nid oes angen bod gennych gcontract Glastir eisoes er mwyn bod yn gymwys. Mae'r eitemau Gwaith Cyfalaf sydd ar gael wedi'u dewis am eu bod yn dod â budd bras a chyffredinol i'r amgylchedd ac am eu bod yn helpu i wireddu uchelgais Llywodraeth Cymru ynghylch y newid yn yr hinsawdd, rheoli dŵr, bioamrywiaeth a thirwedd.

Mae cynllun Grantiau Bach Glastir yn annibynnol ar gynlluniau eraill ac yn cynnig hyd ar £7,500 fesul ffenestr ar gyfer cynnal Gwaith Cyfalaf. Mae rhestrau o'r Gwaith Cyfalaf ar gael fesul thema i sicrhau canlyniadau er lles yr amgylchedd.

Amcanion y Cynllun:

- Lleihau allyriadau Carbon a Nwyon Tŷ Gwydr.
- Addasu i'r newid yn yr hinsawdd a datblygu gallu busnesau ffermio a choedwigaeth i wrthsefyll ei effeithiau (cydnerthedd).
- Rheoli ein hadnoddau dŵr i wella ansawdd dŵr a lleihau'r perygl o lifogydd.
- Amddiffyn y dirwedd a'r amgylchedd hanesyddol a gwella mynediad.
- Cyfrannu at wydroi'r dirywiad ym mioamrywiaeth frodorol Cymru.

Bydd Llywodraeth Cymru'n cynnig Grantiau Bach Glastir i dalu am waith amgylcheddol a fydd yn cyflawni amcanion Themâu Grantiau Bach Glastir. Bydd rheolwyr tir a busnesau ffermio, ar ôl Datgan Diddordeb i Lywodraeth Cymru, yn cael eu dewis ar gyfer Grantiau Bach Glastir. Caiff y Datganiad o Ddiddordeb ei sgorio yn ôl ei allu i gyfrannu at gyflawni amcanion Thema Grantiau Bach Glastir. Y rheini fydd yn gallu cyfrannu fwyaf at gyflawni amcanion pob Thema fydd yn cael y sgôr uchaf. (Gweler [Dewis](#))

Mae'r canllaw hwn wedi'i baratoi ar gyfer rheolwyr tir a busnesau ffermio sy'n bwriadu Datgan Diddordeb yng Ngrantiau Bach Glastir.

Mae'r cynllun Glastir wedi'i gymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd. Caiff unrhyw newidiadau eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru (www.llyw.cymru) a GWLAD ar-lein (www.llyw.cymru/cofrestrwch-ar-gyfer-newyddion-amaethyddiaeth-choedwigaeth-gwlad) a byddwn yn cysylltu â'r rheini y bydd y newidiadau'n effeithio arnyh nhw.

Ariennir Grantiau Bach Glastir gan Lywodraeth Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd i ffurfio rhan o raglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020.

Rheolir Grantiau Bach Glastir gan Reoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014 rhif 3222 (Cy327); Rheoliadau (EU) rhifau 1305/2013, 1303/2013 a 1306/2013 y Cyngor, Rheoliadau Gweithredu (EU) rhifau 808/2014 a 809/2014 y Comisiwn a Rheoliadau Dirprwyedig (EU) 640/2014 ac 807/2014 (fel y'u diwygir o dro i dro) y Comisiwn. Cewch gopiâu o'r Rheoliadau hyn ar wefan EUR-Lex (eur-lex.europa.eu) neu gallwch ofyn i'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru am gopi.

Adran B – Pwy sy'n Gymwys am Grantiau Bach Glastir

Yr amodau ar gyfer Rheolwyr Tir a Busnesau Ffermio:

- Byddwch wedi'ch cofrestru gyda Llywodraeth Cymru ac wedi cael Cyfeirnod Cwsmer (CRN).
- Bydd eich tir wedi'i gofrestru gyda Llywodraeth Cymru.
- Byddwch wedi'ch cofrestru gydag RPW Ar-lein.
- Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004.

Pa Dir sy'n Gymwys:

- Bydd yn dir amaethyddol
- Bydd yr holl gaeau yng Nghymru
- Bydd gennych reolaeth lwyr ar y tir hyd at ddyddiad diwedd y contract er mwyn ichi allu cyflawni ymrwymadau'r cynllun.

Nid yw'r canlynol yn gymwys am Grantiau Bach Glastir (oni bai y dywedir yn wahanol):

- Tir sy'n cael ei ddefnyddio gan fwy nag un ffermwr
- Rheolwyr tir a busnesau ffermio sydd wedi'u gwahardd (Gweler y [Gwaharddiad 2 Flynedd](#))
- Rheolwyr tir a busnesau ffermio sydd â Thrwyddedau Pori (Cod Deiliadaeth G ar y Ffurflen Cais Sengl (SAF))

- Tir Comin cofrestredig
- Parseli Tir o dan gontract y cynlluniau canlynol
 - Glastir Uwch
 - Rheoli Coetir Glastir (mae'r cae ar gael ar gyfer Grantiau Bach Glastir, ond fe fydd cyfyngiadau ar rai gweithgareddau)
 - Creu Coetir Glastir (mae'r cae ar gael ar gyfer Grantiau Bach Glastir, ond fe fydd cyfyngiadau ar rai gweithgareddau)
 - Adfer Coetir Glastir (mae'r cae ar gael ar gyfer Grantiau Bach Glastir, ond fe fydd cyfyngiadau ar rai gweithgareddau)
 - Cynllun Coetir Ffermydd/Cynllun Premiwm Coetir Ffermydd
 - Premiwm Tir wedi'i Wella
 - Premiwm Creu Coetir Glastir
 - Coetiroedd Gwell i Gymru
 - Cynllun Grantiau Coetir
- Safleoedd â thir sy'n cael ei ddefnyddio'n bennaf ar gyfer gweithgareddau hamdden neu weithgareddau anamaethyddol eraill, fel:
 - Meysydd pebyll/carafanau
 - Cyrsiau carlamu
 - Paneli solar
 - Cyfleusterau chwaraeon parhaol neu gaeau hamdden.

Adran C – Tir mewn cynlluniau eraill

Dyma fanylion y berthynas rhwng Grantiau Bach Glastir a thir sy'n perthyn i gynlluniau eraill:

Glastir Sylfaenol

Os oes gennych gontract Glastir Sylfaenol eisoes, does dim i'ch rhwystro rhag Datgan Diddordeb yng Ngrantiau Bach Glastir. Ond, mae yna gyfyngiadau. Chewch chi ddim Datgan Diddordeb i gynnal gwaith sydd eisoes yn rhan o'ch contract, er enghraifft, i blygu perth ar berth sydd eisoes wedi cael ei phlygu o dan gontract Glastir Sylfaenol. Chewch chi

ddim Datgan Diddordeb i wneud gwaith allai newid amodau rheoli un o'ch opsiynau Glastir Sylfaenol, er enghraifft sefydlu coetir bach ar opsiwn 15 Glastir Sylfaenol.

Glastir Uwch

Nid yw parseli tir sy'n dod o dan contract Glastir Uwch yn gymwys am Grantiau Bach Glastir. Os caiff parseli tir ychwanegol eu trosglwyddo i fusnes ffermio ond os nad ydyn nhw eisoes wedi'u cynnwys mewn contract Glastir Uwch sydd eisoes yn bodoli, maen nhw'n gymwys am Grantiau Bach Glastir.

Glastir Tir Comin

Nid yw tir sy'n Dir Comin Cofrestredig yn gymwys am Grantiau Bach Glastir.

Mae tir sy'n cael ei gyd-ddefnyddio, nad yw'n Dir Comin Cofrestredig, yn gymwys am Grantiau Bach Glastir. Fodd bynnag, os oes gennych Contract Tir Comin Glastir ar dir o'r fath, fe fydd cyfyngiadau. Ni chewch ddatgan diddordeb mewn gwaith fydd yn newid amodau rheoli'r Contract Tir Comin Glastir sydd gennych eisoes.

Glastir Organig

Mae tir sy'n dod o dan contract Glastir Organig yn gallu bod yn gymwys am Grantiau Bach Glastir. Os na fydd tir yn gymwys am Glastir Organig yn sgil gorffen prosiect Grantiau Bach Glastir arno, bydd yn rhaid ad-dalu'r arian a dalwyd arno o dan Glastir Organig.

Coetir Glastir

Ni fydd caeau o dan gynlluniau Adfer Coetir Glastir, Creu Coetir Glastir na Rheoli Coetir Glastir yn gymwys am Grantiau Bach Glastir.

Os bydd rheolwyr tir a busnesau ffermio'n ystyried plannu coetir newydd dros 0.25 ha, bydd y tir hwnnw'n gymwys o dan gynllun Creu Coetir Glastir. Yn wahanol i'r cynllun Creu Coetir Glastir, nid oes premiwm blynyddol na thaliadau cynnal ar sail arwynebedd yn cael eu talu o dan gynllun Grantiau Bach Glastir. Hefyd, os daw tir yn anghymwys am y Taliad Sylfaenol yn sgil cynnal prosiect Grantiau Bach Glastir, ni fydd hwnnw'n parhau'n gymwys hyd yn oed

os cafodd y Cynllun Taliad Sengl ei dalu ichi yn 2008.

Am ragor o wybodaeth, cliciwch yma www.llyw.cymru/glastir

Os yw'r gweithgaredd gwaith cyfalaf wedi cael ei ariannu gan unrhyw un o'r cynlluniau isod, nid yw'n gymwys am Grantiau Bach Glastir:

Grant Cynhyrchu Cynaliadwy

SMS – Cynllun Rheoli Cynaliadwy

Tir a gafodd ei gynnwys yn SMS – Cynllun Rheoli Cynaliadwy

Grantiau Effeithiolrwydd – Glastir

YESS (Cymorth i Ffermwyr Ifanc)

Tir Cynefin Sensitif

Ni fydd rhai opsiynau ar gael ar dir sy'n dod o dan reoliadau Asesu'r Effaith Amgylcheddol (EIA). Mae tir cynefin yn dod o dan gwmpas rheoliadau Asesu'r Effaith Amgylcheddol. (Gweler Canllaw Technegol Grantiau Bach Glastir yn www.llyw.cymru/glastir)

Cynllun y Taliad Sylfaenol

Gall Grantiau Bach Glastir effeithio ar hawl rheolwyr tir a busnesau ffermio i gael y BPS. Am ragor o fanylion, darllenwch Ganllaw Technegol Grantiau Bach Glastir yn www.llyw.cymru/glastir

Darllenwch lyfryn rheolau'r SAF i weld sut mae asesu caeau â nodweddion anghymwys, gan gynnwys coed, ynddyn nhw. (Gweler www.llyw.cymru/glastir)

Cael eich Talu Ddwywaith

Peidiwch â gwneud cais am Grantiau Bach Glastir os ydych eisoes yn derbyn arian o le arall i gynnal yr un gwaith, e.e. y Gronfa Natur. Os oes gennych contract Grantiau Bach Glastir, ni fyddwch yn gymwys am ragor o arian i gynnal y gwaith hwnnw. Fe fydddech yn cael eich talu ddwywaith am wneud yr un peth fel arall.

Os gwelir eich bod yn cael arian o le arall i gynnal gwaith Grant Bach Glastir, gallech gael eich cosbi, bydd yn rhaid ichi dalu arian eich contract Grantiau Bach Glastir yn ôl a chewch

eich gwahardd rhag gwneud cais i **unrhyw** gynllun Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 am hyd at ddwy flynedd.

Tir sy'n cael ei ddefnyddio i gynnal Gweithgareddau Chwaraeon a/neu Hamdden

Ni fyddwn yn ystyried eich bod yn cynnal maes chwarae neu hamdden parhaol oni bai bod unrhyw rai o'r canlynol yn gymwys:

- Bod y maes wedi'i neilltuo ac yn cael ei gadw gydol y flwyddyn i gynnal chwaraeon neu weithgareddau hamdden arno. Er enghraifft, cwrs golff, cae pêl-droed neu manège (arena marchogaeth). Mae'r tir yn anghymwys hyd yn oed os oes gweithgareddau amaeth yn cael ei gynnal arno os nad amaeth yw ei brif ddefnydd.
- Mae'r tir yn cynnwys un neu fwy o adeileddau parhaol sy'n cael eu defnyddio gan bobl i allu cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon neu hamdden – neu adeileddau parhaol ar gyfer gwylwyr, i'w gwneud yn fwy cyfforddus (er enghraifft, ystafelloedd newid, cawodydd neu doiledau, caffi, seddi i wylwyr neu gaban gwyllo). Ni chynhwysir meysydd parcio. Os ydy'r manège wrth ysgol farchogaeth neu stablau llog, ystyrir bod eisteddle neu gaban gwyllo'r manège yn adeiledd parhaol ond nid adeiladau a stablau'r stablau llog neu'r ysgol.
- Nid yw'r tir na'r cyfleusterau at ddefnydd personol yn unig.

Gwaharddiad 2 Flynedd

Os na fyddwch wedi gorffen 80% o werth y Prosiectau Gwaith Cyfalaf yn y Thema, yna cewch eich gwahardd am 2 flynedd rhag gwneud cais am unrhyw Themâu Grantiau Bach Glastir.

Mae'n bwysig bod yn ofalus wrth ddewis Prosiectau Gwaith Cyfalaf gan na fydd modd eu newid ar ôl derbyn y contract, hynny oherwydd cyfnod ymgeisio byr y Thema a'r terfyn amser tynn ar gyfer hawlio'r grantiau.

Diben y gwaharddiad 2 flynedd yw sicrhau bod Grantiau Bach Glastir yn arwain at fuddiannau amgylcheddol a sicrhau mai dim ond y rheini fydd am ymroi i gynnal y gwaith fydd yn Datgan Diddordeb.

Gallai peidio â chwblhau contract olygu bod rheolwyr tir a busnesau ffermio eraill heb gael eu dewis ar gyfer Thema Grantiau Glastir Bach.

Os bydd Llywodraeth Cymru'n derbyn nad ydych yn gallu gorffen prosiect Grantiau Bach Glastir oherwydd amgylchiadau eithriadol, caiff y prosiect ei dynnu o'r contract ac efallai y caiff ei ychwanegu at gais rywdro yn y dyfodol. Caiff pob cais ei asesu'n unigol.

Adran D – Ymgynghori a Chaniatáu

Bydd Llywodraeth Cymru'n ymgynghori â'r awdurdod perthnasol ar eich rhan ac yn gofyn iddo am ei ganiatâd ond rydym yn eich cynghori i gysylltu â'r awdurdod perthnasol cyn Datgan Diddordeb i drafod y Prosiectau Gwaith Cyfalaf.

Yn wahanol i gylchoedd blaenorol, os oes angen caniatâd Cyfoeth Cenedlaethol Cymru (CNC) ar y prosiect arfaethedig, gallwch ofyn am ganiatâd yn uniongyrchol ganddynt. Rhaid lanlwytho cadarnhad ysgrifenedig gan ddefnyddio eich cyfrif RPW Ar-lein erbyn dyddiad cau'r Datganiad o Ddiddordeb. Os na dderbynnir caniatâd erbyn y dyddiad hwnnw, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â CNC ar eich rhan.

Mae angen caniatâd cyn derbyn a chynnal Gwaith Cyfalaf Grantiau Bach Glastir. Cewch fanylion prosiectau Gwaith Cyfalaf a'r caniatâd sydd ei angen yn y Cyngor Technegol. (www.llyw.cymru/glastir).

Rhaid ichi gadw at amodau unrhyw ganiatâd y gallai awdurdod ei roi ichi. Gallai peidio â gwneud arwain at eich erlyn.

Os na fyddwch yn gallu cael y caniatâd, ni fydd y Prosiect Gwaith Cyfalaf yn ddilys.

Bydd angen ymgynghori neu ganiatâd i gynnal prosiect ar dir o fewn yr ardaloedd dynodedig canlynol. Gallai'r broses o roi caniatâd gymryd llawer o amser.

Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG), Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) ac Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA)

Tir sydd wedi'i ddynodi fel SoDdGA (gan gynnwys AGA neu ACA) neu GNG.

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw'r awdurdod perthnasol ar gyfer rheoli SoDdGAoedd a GNG. Mae'n rhaid gofyn o dan y gyfraith am ganiatâd ysgrifenedig CNC i gynnal Opsiwn Rheoli ar y tir hwnnw.

Gallwch ofyn am ganiatâd gan CNC yn uniongyrchol a'i lanlwytho gan ddefnyddio eich cyfrif RPW Ar-lein. Bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn caniatâd ysgrifenedig os yw wedi'i lanlwytho cyn dyddiad cau'r Datganiad o Ddiddordeb. Os na dderbynnir caniatâd erbyn y dyddiad hwnnw, byddwn yn ymgynghori â CNC ar eich rhan.

Cyfoeth Naturiol Cymru
www.cyfoethnaturiol.cymru

Parciau a Gerddi Cofrestredig, Henebion Rhestredig a Nodweddion Hanesyddol Eraill

Gofalwch nad yw gofynion eich Gwaith Cyfalaf Grantiau Bach Glastir yn gwrthdaro â gofynion rheoli tir sydd wedi'i ddynodi'n Heneb Restredig nac yn achosi difrod i Barciau a Gerddi Cofrestredig, Henebion Rhestredig a Nodweddion Amgylcheddol Hanesyddol.

CADW yw'r awdurdod perthnasol ar gyfer rheoli Henebion Rhestredig a Pharciau a Gerddi Cofrestredig. Efallai y bydd angen caniatâd ysgrifenedig CADW arnoch i gynnal Gwaith Cyfalaf ar y tir hwnnw.

CADW
www.cadw.llyw.cymru

Nodweddion Amgylcheddol Hanesyddol

Os ydych yn bwriadu cynnal Gwaith Cyfalaf fydd yn golygu tarfu ar Nodwedd Amgylcheddol Hanesyddol, bydd angen caniatâd eich Ymddiriedolaeth Archeolegol leol arnoch.

Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys
www.cpat.org.uk/

Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed
www.dyfedarchaeology.org.uk

Ymddiriedolaeth Morgannwg-Gwent
www.ggat.org.uk/index_cym.html

Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd
www.heneb.co.uk

Caniatadau, Gorchmynion Cadw Coed a Hawliau Tramwy

Cyfrifoldeb y Busnes Ffermio yw:

- Cael y caniatâd cynllunio sydd ei angen i gynnal prosiectau Gwaith Cyfalaf Grantiau Bach Glastir.
- Gofalu bod unrhyw Waith Cyfalaf sy'n cael ei gynnal trwy Grantiau Bach Glastir yn cydymffurfio â'r cyfrifoldebau am gynnal hawliau tramwy cyhoeddus.
- Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd coesyn mor drwchus y bydd angen ichi gael Trwydded Cwmpo Coed dan Ddeddf Coedwigaeth (1967) gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Eich cyfrifoldeb chi yw edrych ar y sefyllfa a phenderfynu a oes angen trwydded. Holwch am Orchymyn Cadw Coed – lle bo angen trwydded i newid coed a pherthi.

Gwaith wrth afon neu amddiffynfa lifogydd

Fwy na thebyg, bydd angen caniatâd i wneud gwaith ar neu wrth gwrs dŵr. Bydd y math o ganiatâd yn dibynnu a yw'r cwrs dŵr wedi'i ddynodi'n **brif afon** neu'n **gwrs dŵr cyffredin**.

Prif Afonydd

Diffinnir prif afon fel cwrs dŵr a ddangosir ar fap prif afonydd. Mae prif afonydd yn cael eu dynodi oherwydd eu pwysigrwydd o ran rheoli llifogydd. Gall hyd yn oed cyrsiau dŵr bach gael eu dynodi'n brif afonydd.

Os ydych am gynnal gwaith mewn, dros, o dan neu wrth (o fewn 8m) brif afon, neu amddiffynfa lifogydd (gan gynnwys amddiffynfa forol), neu ar **orlffdir**, efallai y bydd angen ichi wneud cais am **Drwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd** (FRAP) oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau nad yw eich gweithgareddau yn achosi perygl llifogydd neu'n gwaethygu perygl llifogydd presennol. Mae trwydded yn angenrheidiol hefyd i sicrhau na fydd eich gwaith yn amharu ar ein hasedau rheoli perygl llifogydd neu yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd, pysgodfeydd neu fywyd gwyllt lleol.

CNC fydd yn penderfynu ar geisiadau FRAP i reoli perygl llifogydd trwy reoleiddio gwaith a gweithgareddau datblygu.

Rhagor o Wybodaeth:

Caniateir rhai gweithgareddau ar, dros, o dan, neu wrth brif afon heb dâl a heb orfod cael trwydded, cyn belled â bod yr holl amodau'n cael eu bodloni. Fe'u disgrifir fel gweithgareddau wedi'u heithrio:

Bydd angen Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd benodol ar bob gweithgaredd arall.

Os na fyddwch yn gwneud cais am Drwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd, gall y canlyniadau gostio'n ddrud iawn i chi. Gallai CNC ofyn ichi ad-dalu costau trwsio'ch difrod ac efallai y cewch eich erlyn. Hefyd, gallai Llywodraeth Cymru ofyn ichi ad-dalu'r Grantiau Bach Glastir.

Cwrs Dŵr Cyffredin

Os nad yw'r Cwrs Dŵr yn brif afon, gallai fod yn gwrs dŵr cyffredin.

I gynnal gwaith o fewn neu dros gwrs dŵr cyffredin, bydd angen i chi gysylltu â'r awdurdod sy'n gyfrifol am y cwrs dŵr penodol hwnnw a gwneud cais am Ganiatâd Cwrs Dŵr Cyffredin. O fewn **Ardaloedd Draenio Mewnol**, daw cyrsiau dŵr cyffredin o dan awdurdod CNC. Bryd hynny, bydd angen ichi gysylltu â CNC, yn hytrach na'r Awdurdod Lleol, am ganiatâd.

Os nad ydych yn sicr p'un ai yw'r cwrs dŵr dan sylw yn brif afon, yn gwrs dŵr cyffredin neu'n rhan o Ardal Ddraenio, cysylltwch â CNC.

Eich cyfrifoldeb yw sicrhau'ch bod yn cydymffurfio â gofynion CNC/Awdurdod Lleol. Os oes angen trwydded/caniatâd a'i bod neu ei fod wedi'i r(h)oi, bydd yn rhaid i chi gadw'r drwydded a'i chyflwyno ar gais. Os yw CNC/Awdurdod Lleol wedi cadarnhau nad oes angen trwydded/caniatâd mae'n rhaid i chi gadw tystiolaeth o hyn a'i chyflwyno ar gais. Os caiff y gwaith ei wneud heb y trwyddedau perthnasol, neu heb y cadarnhad nad oes angen trwyddedau, ystyrir eich bod wedi mynd yn groes i'r rheolau.

Adran E – Gwneud Cais am Grantiau Bach Glastir

Cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb

Er mwyn cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb Grantiau Bach Glastir, rhaid mynd ar Daliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein. Os oes gennych Gyfeirnod Cwsmer (CRN) eisoes, fe ddylech fod wedi cael llythyr gyda'ch Cod Defnyddio arno ichi allu agor cyfrif. Os ydych wedi'i golli, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 (Llun – Iau 8:30am – 5.00pm, Gwener 8:30am – 4.30pm) a rhoi'ch CRN i'r cysylltydd. Caiff Cod Defnyddio newydd ei anfon atoch.

Ar ôl ichi gofrestru, byddwch yn gallu mynd i'ch cyfrif RPW Ar-lein o www.llyw.cymru/rpwarlein. Bydd ffurflen Datgan Diddordeb Grantiau Bach Glastir ar gael ichi yn adran Grantiau Bach Glastir eich cyfrif.

Os oes gennych asiant yn gweithio ar eich rhan, bydd gofyn iddo gofrestru fel asiant ar RPW Ar-lein. Os nad yw wedi gwneud eto, dylai lenwi'r ffurflen Manylion Asiant/Undeb Ffermwyr (Cymru) ar unwaith. Mae copi o'r ffurflen ar gael ar www.llyw.cymru/rpwarlein. Ar ôl i'r ffurflen ein cyrraedd, byddwn yn anfon CRN Asiant ato a Chod Defnyddio RPW Ar-lein. Bydd gofyn llenwi Ffurflen Ganiatâd Cymdeithasau hefyd i gytuno ar rolau'r cleient. Cedwir copi o'r ffurflen hon ar www.llyw.cymru/rpwarlein.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gofrestru ar RPW Ar-lein neu am Ddatgan Diddordeb, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004. Byddan nhw'n gallu'ch cyngori a rhoi gwybod ichi ble gallwch fynd am help digidol.

Cewch ragor o fanylion am Daliadau Gwledig Cymru Ar-lein ar wefan Llywodraeth Cymru (www.llyw.cymru/rpwarlein).

Atebwch unrhyw gwestiynau y mae Llywodraeth Cymru'n eu gofyn ichi am eich Datganiad Diddordeb Grantiau Bach Glastir yn syth. O beidio ag ateb yn brydlon, efallai na fyddwn yn gallu cynnig contract Grantiau Bach Glastir ichi.

Themâu

Mae Grantiau Bach Glastir wedi'u rhannu yn ôl Themâu, bob un yn dod â budd i'r amgylchedd. Gall busnesau ffermio o bob rhan o Gymru Ddatgan Diddordeb a gall pob busnes Ddatgan Diddordeb ym mhob thema.

Byddwn yn darparu mapiau sy'n dangos gwerth prosiectau Gwaith Cyfalaf Grantiau Bach Glastir o dan bob Thema ym mhob rhan o Gymru.

Y Broses Ddewis

Fel rhan o broses ddewis Grantiau Bach Glastir, byddwn yn asesu pob prosiect Gwaith Cyfalaf y bydd busnesau ffermio yn Datgan Diddordeb i'w cynnal. Rhoddir sgôr i bob prosiect Gwaith Cyfalaf yn ôl ei allu i gyfrannu at gyflawni amcanion Glastir o fewn y **Thema**. I weld y manylion sgorio, darllenwch Ganllaw Technegol Grantiau Bach Glastir yn www.llyw.cymru/glastir

Y prosiectau Gwaith Cyfalaf sy'n cael y sgôr uchaf fydd yn cael eu dewis a rhoddir gwybod i reolwyr y tir neu'r busnesau ffermio pa brosiect Gwaith Cyfalaf sy'n llwyddiannus – hyd at £7,500 y CRN, fesul Datganiad o Ddiddordeb.

Adran F – Taliadau

Rhaid hawlio Gwaith Cyfalaf Grantiau Bach Glastir trwy'ch cyfrif RPW Ar-lein; caiff taliadau Gwaith Cyfalaf eu gwneud ar ôl dilysu'r hawliad.

Er mwyn derbyn Grantiau Bach Glastir, rhaid ichi:

- Ymrwymo i Gontract Grantiau Bach Glastir a chadw at yr holl ofynion.
- Peidio â gwneud gosodiad na datganiad ffug neu gamarweiniol, na rhoi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol.
- Peidio â ffugio'r amodau sydd eu hangen i gael taliad.
- Caniatáu i Lywodraeth Cymru neu unrhyw un arall sydd â chaniatâd, i archwilio'ch tir unrhyw bryd a byddwch yn darparu unrhyw ddogfen neu gofnod y gallai Llywodraeth Cymru neu'r sawl sydd â chaniatâd ofyn amdanynt.
- Cyflwyno Hawliadau dilys a chyflawn ar-lein am Waith Cyfalaf erbyn y terfyn amser. Ni fydd hawliad yn ddilys nes bod yr holl wybodaeth ategol hefyd wedi'i chyflwyno.

Pwysig: Ar gyfer POB Prosiect Gwaith Cyfalaf rydych yn ei hawlio, rhaid cyflwyno ffotograffau â Geotag o'r safle cyn y gwaith ac ar ôl y gwaith (Gweler [Cadw Cofnodion](#))

- Rhaid hawlio'r taliad cyn y dyddiad terfyn fydd wedi'i nodi yn eich contract. Byddwn yn gwrthod hawliadau fydd yn ein cyrraedd ar ôl y dyddiad hwn.
- Peidiwch â hawlio'r taliad nes bod y Gwaith Cyfalaf wedi'i gwblhau. Ni chewch hawlio ar Brosiect sydd heb ei orffen ac ni chewch hawlio ar unrhyw waith sy'n cael ei wneud ar ôl hawlio'r taliad.

Adran G – Trosglwyddo neu Werthu Tir o dan Contract

A fydddech cystal â nodi na all Cytundebau Grantiau Bach Glastir gael eu trosglwyddo. Os caiff tir ei werthu neu ei drosglwyddo (Tenantiaeth lafar neu ysgrifenedig) cyn ichi orffen y Prosiectau Gwaith Cyfalaf, caiff eich contract ei ganslo ac ni chewch unrhyw daliad.

Newidiadau i'r Ddeddfwriaeth (gan gynnwys Dehongliadau Newydd)

Mae Rheoliadau Ewropeaidd yn gallu newid o dro i dro a bydd gofyn ichi gadw at unrhyw newidiadau ar ôl i Lywodraeth Cymru roi gwybod ichi amdanynt.

Newidiadau i Reolau'r Cynllun

Weithiau bydd angen newid eich contract, a hynny am nifer o resymau. Er enghraifft, efallai y bydd angen diweddarau'r amodau rheoli iddyn nhw gyd-fynd â'r wybodaeth wyddonol ddiweddaraf, newid rheolau'r cynllun i gyd-fynd â newidiadau yn rhaglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 neu gyfraddau talu newydd. Byddwn yn cyhoeddi unrhyw newidiadau ar wefan Llywodraeth Cymru (www.llyw.cymru) neu os gwelwn fod angen, byddwn yn ysgrifennu atoch.

Adran H – Archwiliadau a Chadw Cofnodion

Mae Llywodraeth Cymru yn gorfod gwneud yn siŵr fod pawb sy'n cymryd rhan yn cadw at reolau Grantiau Bach Glastir. I'r perwyl hwnnw, byddwn yn archwilio ffermydd a hefyd, yn defnyddio Systemau Lleoli Global (GPS), lluniau o'r awyr a delweddau lloeren.

Archwiliadau Fferm

Bydd Llywodraeth Cymru a chyrrff rheoli arbenigol yn gwneud eu gorau i darfu cyn lleied â phosib arnoch wrth archwilio'ch fferm ond weithiau bydd yn rhaid cynnal ambell archwiliad heb rybudd. Mae hi'n bosib y bydd gofyn inni gynnal archwiliadau fwy nag unwaith y flwyddyn.

Os byddwch yn gwrthod gadael i archwiliad gael ei gynnal neu'n rhwystro archwilydd neu'n gwrthod rhoi help rhesymol iddo, fe gollwch eich taliad a gallech gael eich erlyn.

Cadw cofnodion

Bydd angen ichi gadw'r holl gofnodion a gwybodaeth sydd eu hangen arnoch i brofi'ch bod wedi rhoi gwybodaeth gywir a chyflawn inni a'ch bod wedi cadw at eich ymrwymiadau.

Bydd gofyn ichi hefyd:

- Rhoi unrhyw wybodaeth am eich Contract Grantiau Bach Glastir i Lywodraeth Cymru a hynny erbyn yr amser y mae Llywodraeth Cymru am ei chael.
- Gofalu bod cofnodion, cyfrifon, derbynebau a gwybodaeth arall, gan gynnwys data ar gyfrifiadur, am eich contract Grantiau Bach Glastir ar gael i Lywodraeth Cymru, ei swyddogion awdurdodedig a'i hasiantwyr eu gweld. Bydd gofyn ichi ganiatáu i Lywodraeth Cymru gymryd unrhyw ddogfen neu gofnod i wneud copïau neu i godi darnau ohoni/ohono.
- Darparu tystiolaeth ffotograffig o bob Prosiect Gwaith Cyfalaf, sy'n cynnwys cyfeirnod map Geotag o'r safle cyn ac ar ôl gwneud y gwaith, a'i chyflwyno gyda'r Hawliad Grantiau Bach Glastir. Bydd angen y dystiolaeth ar Lywodraeth Cymru iddi allu cadarnhau bod y Prosiect Gwaith Cyfalaf wedi'i orffen a'i gynnal yn y lle cywir yn unol â'r manylebau gofynnol. Mae help digidol ar gael os oes angen.

Adran I – Gostyngiadau a Chosbau

Os gwelwn fod eitemau heb eu gorffen neu heb eu cynnal yn unol â manylebau technegol y prosiectau, caiff y taliad ei leihau yn ôl faint o waith sydd wedi'i wneud yn unol â'r fanyleb.

Os bydd y gostyngiad hwn yn fwy na 10% o werth yr hawliad, byddwn yn eich cosbi am orddatgan.

Yn ogystal â'r gosb, gallai gorddatgan Prosiect Gwaith Cyfalaf arwain at eich gwahardd o'r cynllun am ddwy flynedd os gwelir eich bod wedi cynnal llai nag 80% o werth y thema yn foddhaol. (Gweler y [Gwaharddiad 2 Flynedd](#))

Os nad yw'r Prif Brosiect Gwaith Cyfalaf yn cyd-fynd â'r fanyleb ac yn effeithio'n uniongyrchol felly ar allu'r prosiect i wireddu'r amcanion amgylcheddol, bydd y Prif Brosiect Gwaith Cyfalaf yn anghymwys a bydd yn rhaid ichi ad-dalu'r arian sydd wedi'i dalu ichi ar gyfer y Prif Waith a'r Gwaith Eilaidd.

Tanddatgan

Nid oes cosbau am danddatgan Grantiau Bach Glastir.

Gorddatgan

Fe welwch isod enghraifft o gosbau cyffredin am Orddatgan.

Sefyllfa:

Nid yw holl hyd/arwynebedd y Prif Brosiect Gwaith Cyfalaf neu ran ohono yn cyd-fynd â'r fanyleb ond nad yw hynny'n cael effaith uniongyrchol ar allu'r prosiect i wireddu'r amcan amgylcheddol.

Enghraifft 1:

Prosiect gwaith Cyfalaf: Plygu 100 Metr o Berth/Gwrych â Ffens Bob Ochr iddi.

Mae perchennog y tir/busnes ffermio yn hawlio ar y 100m cyfan.

Mae archwiliad yn dangos mai dim ond 91m gafodd ei phlygu.

Tynnir y 9m sydd wedi'i orddatgan o'r hawliad.

Gan fod hyn yn llai na 10% o'r swm a hawli, caiff yr hawliad ei leihau ond ni fydd cosb am orddatgan. Caiff yr hawliad am weddill y Prosiect Gwaith Cyfalaf, gan gynnwys unrhyw waith eilaidd, ei dalu.

Enghraifft 2:

Prosiect gwaith Cyfalaf: Plygu 100 Metr o Berth/Gwrych â Ffens Bob Ochr iddi.

Mae perchennog y tir/busnes ffermio yn hawlio ar y 100m cyfan.

Mae archwiliad yn dangos mai dim ond 81m gafodd ei phlygu.

Tynnir yr 19m sydd wedi'i orddatgan o'r hawliad.

Gan fod hyn yn fwy na 10 % o'r swm a hawli, caiff yr hawliad ei leihau a bydd cosb am orddatgan (y gwahaniaeth). Caiff yr hawliad am weddill y Prosiect Gwaith Cyfalaf, gan gynnwys unrhyw waith eilaidd, ei dalu.

Enghraifft 3:

Prosiect gwaith Cyfalaf: Plygu 100 Metr o Berth/Gwrych â Ffens Bob Ochr iddi a dwy gât bren:

Mae Perchennog y Tir/Busnes Ffermio yn hawlio ar y 100m cyfan a'r 2 gât.

Mae archwiliad yn dangos bod perth 100m o hyd wedi'i phlygu ond mai dim ond 1 gât sydd wedi'i chodi.

Mae 1 gât wedi'i gorddatgan a chaiff ei thynnu o'r hawliad.

Os bydd y gât yn fwy na 10 % o'r swm a hawli, caiff yr hawliad ei leihau a bydd cosb am orddatgan. Caiff yr hawliad am weddill y Prosiect Gwaith Cyfalaf, gan gynnwys unrhyw waith eilaidd, ei dalu.

Cosbau cronrus am orddatgan

Yn ystod yr archwiliad, caiff pob prosiect Grant Bach Glastir ei adolygu. Os gwelir bod unrhyw waith yn yr haliad hwn neu hawliad blaenorol yn anghymwys, caiff cosb gronnus am orddatgan ei gosod fydd yn cymryd i ystyriaeth y cyfan sydd wedi'i dalu o dan y cynllun Grantiau Bach Glastir ichi.

Adran J – Y Drefn Apelio

Mae'r broses apelio yng Nghymru yn cynnig trefn apelio annibynnol ichi os ydych yn teimlo nad yw Llywodraeth Cymru wedi dod i benderfyniad cywir yn ôl rheolau Glastir.

Mae'r broses apelio wedi'i rhannu'n ddwy ran:

- Cam 1: pennaeth y Swyddfa Ranbarthol i adolygu'r achos
- Cam 2: Panel Apelio Annibynnol i adolygu'r achos (os byddwch yn anhapus â'r penderfyniad yng Ngham 1). Mae'r Panel Annibynnol yn gwneud argymhellion i'r Dirprwy Weinidog Amaeth a fydd yn penderfynu'n derfynol ar y mater.

Daw'r broses apelio i ben ar ôl i'r Dirprwy Weinidog benderfynu ar y mater. Nid oes tâl am Gam 1 y broses ond codir tâl ar gyfer Cam 2 – £50 am wrandawriad ysgrifenedig a £100 am wrandawriad llafar. Bydd yr arian hwn yn cael ei dalu'n ôl yn llawn os bydd Cam 2 yn llwyddiannus neu'n rhannol lwyddiannus.

Rhaid i apêl gyrraedd o fewn 60 diwrnod ar ôl dyddiad y llythyr sy'n disgrifio'r penderfyniad rydych am apelio yn ei erbyn.

Er mwyn cael rhagor o wybodaeth am y drefn apelio, cysylltwch â'ch Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid.

Y Drefn Gwyno

Byddwn yn delio â chwynion yn unol â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gwynion. Cewch fwy o wybodaeth am sut i wneud gan y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid.

Croeso ichi ysgrifennu hefyd at unrhyw aelod o'r Cynulliad Cenedlaethol am eich cwyn a gallech gysylltu hefyd â:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus
Cymru
1 Ffordd y Hen Gae
Pen-coed
CF35 5LJ

Adran K – Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru
www.llyw.cymru/grantiau-thaliadau-gwledig-hysbysiad-preifatwydd

Manylion Cysylltu

Fe welwch lawer o wybodaeth bwysig ar wefan Llywodraeth Cymru www.llyw.cymru/glastir ac yn y cylchgrawn Gwlad www.gwladarlein.org

Dyma'r manylion cysylltu:

Y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid

Taliadau Gwledig Cymru
PO Box 251
Caernarfon
LL55 9DA
Tel: 0300 062 5004

Cysylltiadau defnyddiol eraill

Ar gyfer tir o dan gytundeb SoDdGA, GNG, AGA ac ACA:

Cyfoeth Naturiol Cymru

d/o Y Ganolfan Gwsmeriaid
Tŷ Cambria
29 Ffordd Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

Ffôn: 0300 065 3000

Ymholiadau cyffredinol: 0300 065 3000

(Llun-Gwe, 8am – 6pm)

Ymholiadau cyffredinol:

enquiries@naturalresourceswales.gov.uk

Ar gyfer Henebion Rhestredig/parciau a gerddi
cofrestredig:

CADW

Llywodraeth Cymru
Plas Carew
Unit 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QQ

Ffôn: 01443 33 6000

Ffacs: 01443 33 6001

E-bost: Cadw@Wales.gsi.gov.uk

Ar gyfer henebion heb eu rhestru a nodweddion
hanesyddol:

Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys

41 Broad Street
Y Trallwng
Powys
SY21 7RR

Ffôn: 01938 553670

Ffacs: 01938 552179

E-bost: trust@cpat.org.uk

Gwefan: www.cpat.org.uk/

Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed

Neuadd y Sir
Stryd Caerfyrddin
Llandeilo
Dyfed
SA19 6AF

Ffôn: 01558 823121

Ffacs: 01558 823133

E-bost: info@dyfedarchaeology.org.uk

Gwefan: www.dyfedarchaeology.org.uk

Ymddiriedolaeth Archeolegol**Morgannwg-Gwent**

Heathfield House
Heathfield
Abertawe
SA1 6EL

Ffôn: 01792 655208

Ffacs: 01792 474469

E-bost: enquiries@ggat.org.uk

Gwefan: www.ggat.org.uk/index_cym.html

Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd

Craig Beuno
Ffordd y Garth
Bangor
Gwynedd
LL57 2RT

Ffôn: 01248 352535

Ffacs: 01248 370925

E-bost: gat@heneb.co.uk

Gwefan: www.heneb.co.uk